CBAC WJEC

**TGAU**

225/02

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF
## HAEN UWCH

A.M. DYDD LLUN, 9 Mehefin 2008

2½ awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 12 tudalen.

Deunydd Darllen ar gyfer Adran A.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch y **tri** chwestiwn o Adran A ac **un** cwestiwn o Adran B.

Ceisiwch gwblhau Adran A mewn tua 1¾ awr er mwyn sicrhau bod gennych o leiaf ¾ awr i gwblhau cwestiwn Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd.

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau a geir mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

VP*(S08-225-02)

## ADRAN A

Darllenwch y tri darn darllen ac yna atebwch y **tri** chwestiwn.

Darn Darllen 1: Cyn rygbi – cnapan a bando
Darn Darllen 2: Hanes Cwpan y Byd: 1987
Darn Darllen 3: Fel Asyn

- Darllenwch y darnau darllen a'r cwestiynau cyfan yn ofalus. Yna, atebwch y cwestiynau, gan ddefnyddio'r ffeithiau o'r darnau darllen yn unig.
- Wrth ateb dylech roi sylw i gywirdeb iaith a mynegiant. Rhoddir hyd at **20 marc** yn yr adran hon am ansawdd eich iaith a'ch mynegiant ar draws yr holl atebion.

**1. Cyn rygbi – cnapan a bando (Darn Darllen 1)**
**Hanes Cwpan y Byd (Darn Darllen 2)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 1** atebwch y cwestiynau hyn yn eich geiriau eich hun:

(i) Ers pryd mae rygbi wedi bod yn cael ei chwarae yng Nghymru? [1]

(ii) I ba gêm roedd bando'n debyg? [1]

(iii) Nodwch **ddau** reswm pam roedd y cnapan yn gêm arw iawn. [2]

Ar ôl darllen **Darn Darllen 2** atebwch y cwestiynau hyn yn eich geiriau eich hun:

(iv) Ym mha flynyddoedd y bu rygbi yn rhan o'r Gêmau Olympaidd? [2]

(v) Pam y penderfynodd y Bwrdd Rygbi Rhyngwladol *(IRB)* ymchwilio i'r syniad o gynnal Cystadleuaeth Cwpan y Byd? [2]

(vi) Enwch y **ddau** chwaraewr sicrhaodd y trydydd safle i Gymru yn erbyn Awstralia. [2]

**[10]**

**2. Cyn rygbi – cnapan a bando (Darn Darllen 1)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 1** dychmygwch eich bod yn cyfweld un o chwaraewyr y gêm 'cnapan'.

Dylech gynnwys:

- gwybodaeth am y gêm ac agwedd pobl tuag ati
- pwy oedd yn chwarae'r gêm
- ble roedd y gêm yn cael ei chwarae.

[18]

Ysgrifennwch ar ffurf deialog. [2]

*Defnyddiwch wybodaeth o'r* ***darn darllen yn unig****.*

*Dylech ddefnyddio eich geiriau eich hun.*

**[20]**

**3. Hanes Cwpan y Byd: 1987 (Darn Darllen 2)**
**Fel Asyn (Darn Darllen 3)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 2** a **Darn Darllen 3** cymharwch y ddau ddarn gan ddweud sut y maent yn debyg ac/neu'n wahanol.

Dylech gyfeirio at y canlynol wrth ymdrin â'r ddau ddarn:

(i) cynnwys (cymharwch **dri** pheth o Ddarn Darllen 2 â **thri** pheth o Ddarn Darllen 3); [6]

(ii) ffurf, iaith, arddull a disgrifiadau (cymharwch **dair** nodwedd o Ddarn Darllen 2 â **thair** nodwedd o Ddarn Darllen 3). Trafodwch effeithiolrwydd y ffurf, yr iaith, yr arddull a'r disgrifiadau. [18]

Rhoddir marciau i chi am **gymharu bwriadol a threfnus** yn adran (i) a (ii). [3]

Dylech gynnwys **dyfyniadau o'r ddau ddarn** i gefnogi'ch sylwadau yn adran (i) a (ii). [3]

*Peidiwch ag ymdrin â'r ddau ddarn darllen ar wahân.*

**[30]**

**[60 + 20 = 80]**

**TROSODD AR GYFER ADRAN B.**

## ADRAN B

**4.** Dewiswch **un** o'r testunau canlynol ac ysgrifennwch arno.
Nodwch rif y cwestiwn a thestun y gwaith.
Dylai eich ateb fod o leiaf **ddwy** ochr tudalen.
Meddyliwch a chynlluniwch eich gwaith yn ofalus.
Rhowch sylw manwl i ysgrifennu'n gywir.

**[20 + 20 = 40]**

*(a)* **STORI:**

Ysgrifennwch stori ar y testun, 'Ar y blaen!'.

*Ceisiwch wneud yn siŵr fod eich stori'n ddiddorol a bod cymeriadau a sgwrs ynddi.*

*(b)* **YMSON:**

Ysgrifennwch ymson **tri** diwrnod ym mywyd person sy'n cystadlu mewn unrhyw gêm neu gystadleuaeth arall.

*Cofiwch ddychmygu mai chi yw'r cymeriad, nodi beth sy'n digwydd ar y tri diwrnod yn ogystal â meddyliau a theimladau'r person.*

*(c)* **LLYTHYR:**

Ysgrifennwch lythyr at ffrind gan berson sy'n cymryd rhan mewn unrhyw ddigwyddiad pwysig.

*Cofiwch mai chi yw'r cymeriad; disgrifiwch yr hyn sy'n digwydd, gan adrodd unrhyw hanesion diddorol, a chyfleu teimladau'r person.*

*(ch)* **ARAITH** neu **ERTHYGL** yn **MYNEGI BARN** ar y testun:

Mae gormod o chwaraeon ar y teledu!

*Medrwch gytuno neu anghytuno â'r gosodiad uchod. Ceisiwch fod yn drefnus a rhoi tystiolaeth i gefnogi eich pwyntiau a'ch barn bob tro.*

**TGAU**

225/02-A

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF
## HAEN UWCH

A.M. DYDD LLUN, 9 Mehefin 2008

2½ awr

**DEUNYDD DARLLEN AR GYFER ADRAN A I'W DDEFNYDDIO GYDA HAEN UWCH**



| | Tudalen |
|---|---|
| Darn Darllen 1 | 2 |
| Darn Darllen 2 | 3 |
| Darn Darllen 3 | 4 |

## DARN DARLLEN 1

# Cyn rygbi – cnapan a bando



(Llun gan Graham Howells)

Gêm eithaf modern yw rygbi. Dim ond ers ychydig dros 100 mlynedd rydyn ni wedi bod yn ei chwarae yma yng Nghymru. Ond roedd gêmau diddorol yng Nghymru cyn i rygbi ddechrau cael ei chwarae. Fel arfer roedd y gêmau'n cael eu cynnal ar ddiwrnodau gŵyl, er enghraifft ar Ddydd Calan a Gŵyl Mabsant. Rhai o'r gêmau mwyaf poblogaidd oedd cnapan a bando.

Roedd bando'n debyg iawn i hoci heddiw ac yn boblogaidd ym Morgannwg hyd ddiwedd y 19eg ganrif. Roedd dau dîm o chwaraewyr yn defnyddio ffon i daro pêl tua'r gôl. Weithiau roedd cannoedd yn chwarae a phobl yn cael anafiadau cas. Byddai pobl yn arfer chwarae bando ar y traeth mawr sydd y tu ôl i waith dur Port Talbot.

Efallai mai cnapan yw'r gêm sydd debycaf i rygbi. Cnapan oedd yr enw ar y bêl bren tua maint pêl griced. Roedd hi'n cael ei berwi rai diwrnodau cyn y gêm fel ei bod yn llithrig ac yn anodd ei dal. Dau grŵp o chwaraewyr oedd – dynion o ddwy ardal wahanol oedden nhw fel arfer. Weithiau, drysau eglwys y ddwy ardal oedd y ddwy gôl a gallai fod milltiroedd rhwng y ddwy eglwys! Er bod rhai gwŷr bonheddig ar gefn ceffylau, roedd y rhan fwyaf o'r chwaraewyr ar droed – cannoedd neu filoedd weithiau. Does dim sôn am y rheolau felly roedd hi'n gêm arw iawn a llawer o chwaraewyr yn cael eu hanafu neu eu lladd hyd yn oed. Byddai'r bêl yn cael ei chicio a'i thaflu ac roedd 'sgrymiau' a 'leiniau' yn digwydd wrth i'r gwahanol dimau geisio cael gafael ar y cnapan. Roedd chwaraewyr mawr cryf tebyg i flaenwyr rygbi yn ymladd am y cnapan, a chwaraewyr cyflym, tebyg i olwyr rygbi heddiw, yn rhedeg â'r bêl bren.

Mae un ardal yn Sir Benfro yn enwog am gêmau cnapan. Er bod y traddodiad wedi dod i ben ers amser maith, mae gwesty yn Nhrefdraeth o'r enw 'Cnapan' i'n hatgoffa am hanes y gêm yn lleol.

Gan y byddai llawer o yfed a gamblo'n digwydd adeg gêmau cnapan a bando, roedd pobl y capeli a'r eglwysi'n gryf yn eu herbyn. Roedden nhw'n credu bod y gêmau'n ddylanwad drwg ar y bobl gyffredin. Dechreuon nhw drefnu gweithgareddau eraill yn y capeli a'r eglwysi i ddenu'r bobl o'r gêmau. Felly, yn raddol, daeth y gêmau i ben.

Byddai gêmau cnapan yn arfer digwydd ar yr hen Galan (Ionawr 12fed) rhwng eglwysi Llanwenog a Llandysul yng Ngheredigion. Gan fod llawer o bobl yn cael eu lladd neu eu hanafu, penderfynodd Ficer Llandysul y dylai'r gêm ddod i ben ym 1833. Dechreuodd ef gystadleuaeth arall rhwng y ddwy ardal, cystadleuaeth i brofi eu gwybodaeth am y Beibl.

*(Dathlu Rygbi Cymru Elin Meek*
*Gwasg Carreg Gwalch)*

**DARN DARLLEN 2**

bbc.co.uk

# CHWARAEON Cwpan Rygbi'r Byd

**BBC CHWARAEON**

## Hanes Cwpan y Byd: 1987



Roedd yn eiliad hanesyddol wrth i'r Eidal a Seland Newydd redeg ar y maes yn Eden Park, Auckland ar 22 Mai, 1987.

116 o flynyddoedd wedi i'r Alban groesawu Lloegr i Gaeredin ar gyfer y gêm brawf gyntaf un, roedd y byd rygbi'n cynnal Cwpan y Byd am y tro cyntaf.

Roedd y byd rygbi'n hwyr iawn yn trefnu Pencampwriaeth y byd. Roedd pêl-droed wedi cynnal Cwpan y Byd er 1930, cafwyd Cwpan Rygbi XIII y Byd am y tro cyntaf ym 1954 ac roedd hyd yn oed y byd criced wedi cynnal Cwpan y Byd er 1975. Roedd rygbi wedi bod yn rhan o'r Gêmau Olympaidd ym 1900, 1908, 1920 a 1924 ond roedd yr Undebau wedi gwrthod cynigion i greu Pencampwriaeth y Byd er mwyn ceisio cadw'r gamp yn amatur.

Ym 1983, cafwyd cynnig gan Undeb Rygbi Awstralia ac Undeb Rygbi Seland Newydd i gynnal cystadleuaeth Cwpan y Byd ac o'r herwydd, fe benderfynodd y Bwrdd Rygbi Rhyngwladol *(IRB)* ymchwilio i'r syniad.

Mewn cyfarfod yr *IRB* ym Mharis ym 1985, cefnogwyd y syniad o gynnal Cwpan y Byd yn Awstralia a Seland Newydd gan y ddwy wlad honno ynghyd â Ffrainc, ond roedd y pedwar Undeb o Ynysoedd Prydain yn gwrthwynebu. Credir mai penderfyniad De Affrica i bleidleisio o blaid y gystadleuaeth, arweiniodd at Loegr a Chymru'n newid eu meddyliau.

Cafodd y saith aelod o'r *IRB* - Seland Newydd, Awstralia, Ffrainc, Lloegr, Yr Alban, Cymru ac Iwerddon - eu lle yn y gystadleuaeth ond doedd dim gêmau rhagbrofol ar gyfer y naw lle arall. Yn hytrach, cafodd Yr Ariannin, Fiji, Yr Eidal, Canada, Romania, Tonga, Japan, Zimbabwe ac America wahoddiad i gystadlu.

Seland Newydd oedd y pencampwyr cyntaf wrth i'r Crysau Duon drechu Ffrainc 29-9 yn y rownd derfynol yn Eden Park.

Llwyddodd Cymru i orffen yn drydydd wrth i drosiad hwyr Paul Thorburn yn dilyn cais gan Adrian Hadley sicrhau buddugoliaeth 22-21 dros Awstralia.

**DARN DARLLEN 3**

# Fel Asyn

Cododd y blaenasgellwr o'r sgrym, rhedeg yn syth at fewnwr y gwrthwynebwyr a'i wthio fetr cyfan yn ôl cyn i weddill yr amddiffyn gau amdano a'i daclo. Ond ar yr eiliad olaf cyn iddo ddisgyn i'r llawr, trodd y blaenasgellwr ei gorff a gosod y bêl ar y ddaear er mwyn i'w dîm gael meddiant a pharhau'r symudiad. Cydiodd un o chwaraewyr yr ail reng yn y bêl a hyrddio drwy'r gwrthwynebwyr i ennill dau fetr arall o dir cyn iddo yntau gael ei daclo.

Ffurfiwyd sgarmes ar unwaith a gwthiodd yr ymosodwyr ymlaen gam wrth gam nes i'r bêl gael ei rhyddhau. Cododd y mewnwr y bêl a'i phasio i'r blaenasgellwr oedd wedi cychwyn y symudiad.

'Allan, Huw! Allan!' galwodd yr athro ymarfer corff.

Ond yn syth yn ei flaen at ganol blaenwyr y gwrthwynebwyr yr aeth y blaenasgellwr. Cadwodd yn glòs at yr ysgarmes gan wthio dau chwaraewr allan o'i ffordd a dechrau hyrddiad arall.

'Na! Na! Na!' galwodd yr athro. 'Pawb yma! Ar unwaith! Dewch, siapwch hi!'

Safodd y bechgyn mewn hanner cylch o'i flaen. Roedd y byrraf ohonynt mor dal â'r athro, tra oedd chwaraewyr yr ail reng yn sefyll, yn llythrennol, ben ac ysgwyddau'n dalach nag ef.

Barry John Harris oedd enw'r athro yn llawlyfr yr ysgol, ond Barry Harris oedd ei enw iawn. Ef oedd wedi ychwanegu'r enw John er mwyn i eraill ei gysylltu ef â'r 'Brenin' Barry John. Ond ar waethaf ymdrechion Barry Harris i glosio at un o gewri rygbi Cymru, Barry Bychan oedd e i genedlaethau o ddisgyblion Ysgol Gyfun Pontiestyn.

'Sawl gwaith ydw i wedi dweud wrthoch chi am ledu'r bêl? E? E?' meddai Barry Bychan a oedd, yn ôl ei arfer, yn dweud y drefn drwy ofyn cwestiynau. 'Pam nad ydych chi'n lledu'r bêl yn gynt? Beth ydych chi'n meddwl mae Arthur yn ei wneud, e? Disgwyl am fws? Fe sy'n mynd i ennill gêm fory i ni, chi'n gwybod hynny, on'd ydych chi? A ti, Huw, wyt ti'n fyddar, gwed? E?'

Nid ymatebodd Huw, gan gadarnhau amheuaeth yr athro.

'Wyt ti'n fud hefyd? E? Wyt ti? E?'

'Nagw, syr' atebodd Huw.

'Wel pam nad wyt ti'n gwrando, 'te?'

Dim ond hanner esgus roedd ei angen ar Barry Bychan i roi llond pen i Huw, ond waeth iddo arbed ei anadl gan nad oedd Huw byth yn gwrando arno ac yntau'n mynd ymlaen ac ymlaen ...

'Wyt ti'n sylweddoli nad gêm i unigolion yw rygbi, wyt ti?'

... ac ymlaen ...

'Wyt ti'n deall bod gan bawb eu rôl, pob un â'i ran i chwarae, on'd wyt ti?'

... ac ymlaen ...

'A beth yw rhan blaenasgellwr? Bod yn gyntaf ar y bêl pan fydd y symudiad yn torri a'i chael hi'n ôl yn gyflym i'r cefnwyr i'w galluogi i chwarae gêm lydan. Wyt ti'n deall hynny, wyt ti? Wyt ti?'

Ond weithiau fe fyddai Huw yn ymateb.

'Ond mae'n rhaid amrywio'r chwarae ...'

'O, ti sy'n hyfforddi'r tîm nawr, ie? Ti sydd wedi bod ar gyrsiau hyfforddi Undeb Rygbi Cymru, ie? Ti sydd wedi bod ar *Heno* yn sôn am sut i ddatblygu chwaraewyr ifanc, ie? Wyt ti'n gwybod sawl math o chwaraewr rygbi sydd, Huw? Wyt ti? Dau! Y rhai sy'n symud y piano a'r rhai sy'n chwarae'r piano. Ac un o'r rhai sy'n symud y piano wyt ti. Y cefnwyr, Arthur a'r lleill, nhw sy'n chwarae'r piano, a'u bwydo nhw yw dy waith di, Huw. Iawn?'

Syllodd Huw yn hurt ar yr athro. Beth ar y ddaear oedd gan bianos i'w wneud â rygbi? Mae'n rhaid fod Barry Bychan wedi clywed rhywun yn dweud hyn i gyd ar *Y Clwb Rygbi* a meddwl ei fod yn swnio'n dda.

'Ac mae yna restr hir ac anrhydeddus iawn o chwaraewyr piano gyda ni yng Nghymru: Cliff Morgan, Barry John (a phwysleisiodd Barry Bychan enw *Barry John*, fel y gwnâi bob tro), Phil Bennett, Jonathan Davies, Gareth Davies, Neil Jenkins, Arwel Thomas, Stephen Jones ... rheiny yw'r sêr; dyna'r chwaraewyr mae pawb yn eu cofio. Pwy sy'n cofio'r lleill, e? Pwy sy'n cofio'r bois sy'n symud y piano, e? Pwy sy'n cofio'r blaenasgellwyr? Alli di eu henwi nhw, Huw? Alli di?'

'Dai Morris, John Taylor ...'

'Ie, wel, efallai fod yna un neu ddau ...'

**Rhan o'r stori gan Elgan Philip Davies**
*(Pac o Straeon Rygbi Gwasg Comer)*